Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1153 (Cy. 202)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 (O.S. 2005/2517) i gyflwyno mesurau—

(a) i atal Thaumetopoea processionea L. (Ymdeithiwr y Derw) rhag cael ei gyflwyno i Gymru, sy'n barth gwarchod cydnabyddedig ar gyfer y pla planhigion niweidiol hwn ("yr ardal warchodedig"); a

(b) i atal y pla planhigion niweidiol hwn rhag lledaenu o fewn yr ardal warchodedig.

Mae'n diwygio'r gofynion technegol y mae rhaid eu bodloni wrth ddod â phlanhigion penodol Quercus L., a fwriedir ar gyfer eu plannu, i mewn i'r ardal warchodedig neu wrth symud y planhigion hynny o fewn yr ardal warchodedig.

Nid oes asesiad effaith wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yn cael unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1153 (Cy. 202)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Gorffennaf 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *19 Gorffennaf 2019* |
| *Yn dod i rym* | *19 Gorffennaf 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2019 a daw i rym ar 19 Gorffennaf 2019.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1967 p.8. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2(1) a 3(1) yn cael eu rhoi i awdurdod cymwys ("competent authority") a ddiffinnir yn adran 1(2), ar gyfer Cymru, fel Gweinidogion Cymru. Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy. 90)). Diwygiwyd adran 2 gan baragraff 8(2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Rhan 1 o'r tabl ym mharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2) ac O.S. 1990/2371 a 2011/1043. Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) gan baragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Diwygiwyd adran 3(1) hefyd gan erthygl 6 o O.S. 2011/1043.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005**

**2.** Yn y tabl yn Rhan C o Atodlen 4 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005(**1**), yn eitem 7E, yn y cofnod yn y drydedd golofn;

(1) ar ddiwedd paragraff (a) ar ôl yr hanner colon mewnosoder "or";

(2) ar ddiwedd paragraff (b) ar ôl yr hanner colon mewnosoder "or";

(3) hepgorer paragraff (c).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
18 Gorffennaf 2019

(**1**) O.S. 2005/2517